| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD :** | **22 Mai 2008** |
| **TEITL :** | **Cod Ymddygiad i Aelodau** |
| **PWRPAS:** | **Mabwysiadu Cod Ymddygiad Newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd** |
| **AWDUR :** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae '*Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008* ("Gorchymyn 2008") yn dyroddi cod ymddygiad enghreifftiol newydd ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

1.2 Mae Gorchymyn 2008 yn dirymu ac yn disodli'r cod ymddygiad enghreifftiol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2001 (h.y. y cod cyfredol).

1.3 O dan adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i awdurdodau perthnasol basio cynnig yn mabwysiadu cod ymddygiad yn seiliedig ar y cod enghreifftiol newydd cyn 20 Medi 2008.

1.4 Mae'n rhaid i'r cod ymddygiad sy'n cael ei fabwysiadu gan y Cyngor gynnwys popeth sydd yn y cod enghreifftiol ond mae'n bosib ychwanegu darpariaethau eraill cyn belled ag y bônt yn gyson â'r cod enghreifftiol.

**2. Argymhelliad y Pwyllgor Safonau**

2.1 Un o swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yw cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau ac adolygu'r cod ymddygiad.  Yn ei gyfarfod ar 14 Ebrill ystyriodd y Pwyllgor y cod enghreifftiol a phenderfynodd:

*(i) argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Cod Enghreifftiol*

*(ii) argymell i'r Cyngor bennu £25 fel gwerth ar gyfer paragraff 17 o'r cod (cofrestru rhoddion a lletygarwch)*

*(iii) argymell i'r Cyngor y dylid ychwanegu darpariaeth i'r Cod yn nodi'r angen i'r aelodau roi gwybodaeth pan fyddant yn gwrthod cynnig o rodd a lletygarwch*

*(iv) argymell i'r Cyngor y dylid cynnwys egwyddorion 'Nolan' fel rhagarweiniad i'r Cod*

2.2 Cysylltir copi ‘r cod, yn cynnwys yr ychwanegiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau, fel **Atodiad**.

## 3. Argymhellion

3.1 Mabwysiadu’r Cod Ymddygiad enghreifftiol, yn cynnwys yr ychwanegiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau, fel Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd i aelodau.